



## **Darlith Flynyddol Cymdeithas y Cyfreithwyr - Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau**

### **GWASANAETHAU CYFREITHIOL: Her y bum mlynedd nesaf.**

1. Mae traddodi darlith Cymdeithas y Cyfreithwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn ffrainc ac yn anrhydedd i mi. Mae'r ddarlith yn ddigwyddiad pwysig bob amser. Mae'n ffrainc benodol i mi am dri phrif reswm. Yn gyntaf, dyma'r tro cyntaf i mi roi darlith o'r fath yn yr Eisteddfod. Rydw i wedi ymweld â'r Eisteddfod droeon. Rydw i wedi gwneud te ym Maes D. Rydw i wedi cael y crys-T. Ond dyma'r tro cyntaf i mi siarad yma. Yn ail, dyma'r tro cyntaf i mi roi darlith o'r fath yn y Gymraeg. Efallai y dylwn i fod yn gwisgo'r crys-T heddiw. Rwy'n ddiolchgar i staff Uned Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi am eu cymorth. Yn drydydd, fel y dywedodd Lowri Morgan wrth estyn gwahoddiad i mi, mae Meifod yn fy "milltir sgwâr." Cefais fy magu ychydig filltiroedd i lawr y ffordd yn Llanllwchaearn.
2. Cefais fy magu ar fferm, yr ieuengaf o bum brawd. Pan oeddwn i'n blentyn, roedd yna anifeiliaid o bob math ar y fferm; gwartheg godro, gwartheg tew, moch a defaid, a chnydau o bob math. Yn raddol, fodd bynnag, aeth y gweithgareddau amrywiol yn llai hyfyw, ac yn y diwedd dim ond y defaid oedd ar ôl. Aeth aelodau ieuengaf y teulu i ddilyn gyrfaedd eraill. Y gyfraith oedd fy newis i. Roedd o'n swnio'n llai o waith na ffermio. Pan fyddai Gwyn, fy niweddar frawd, yn fy ngweld i'n darllen gwerslyfrau, mi fyddai'n dweud wrtha i, "Gweithia'n galed rŵan neu mi fyddi di'n gweithio'n galed weddill dy oes." Ond canlyniad hyn oedd bod neb ar ôl i ffermio. Erbyn hyn mae'r tir wedi cael ei werthu neu ei osod i ffermwyr cyfagos fel rhan o ddaliadau amaethyddol mwy. Mae ffermio yng Nghymru wedi newid.

3. Mae gwasanaethau cyfreithiol wedi newid hefyd. Cefais fy enw ar ôl cyfreithiwr adnabyddus yn y Canolbarth o'r enw Milwyn Jenkins. Doedd gennym ni ddim cysylltiad â'r gyfraith. Roedd fy rhieni'n hoffi'r enw. Erbyn hyn rwy'n rhannu'r enw ag ychydig o ddynion eraill, ambell ferch, ac un ci defaid. Roedd cwmni Milwyn Jenkins, fel y rhan fwyaf o gwmnïau'r cyfnod, yn darparu gwasanaethau cyfreithiol o bob math, fel cyfreithwyr teulu. Roedd yna gwmnïau o'r fath, a llysoedd troseddol a sifil, ym mhob tref bron.
4. Yn gynnar iawn yn fy ngyrfa cefais gyfarwyddyd i gynrychioli diffinydd mewn achos fyddai'n cael ei glywed yn Llys y Goron y Trallwng gan farnwr yn yr Uchel Lys, Meistr Ustus Anthony Evans, a ddaeth i gael ei adnabod yn ddiweddarach fel yr Arglwydd Ustus Evans. Yn y dyddiau hynny roedd y llys yn cael ei gynnal i fyny'r grisiau yn Neuadd y Dref. Pan glywodd fy niweddar rieni am hyn dyma nhw'n gofyn fydden nhw'n cael dod i 'ngweld i yn y llys. Roedden nhw wedi gofyn sawl gwaith o'r blaen a finnau wedi gwneud rhyw esgus neu'i gilydd. Ond roedd cael barnwr o'r Uchel Lys yn dod i dref fach fel y Trallwng yn ddigwyddiad mawr yr adeg honno. Roedd yna orymdaith, yn cael ei harwain gan yr Uchel Siryf, yn cario'i gleddyf, ynghyd â masgot y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, gafr yn cael ei thywys gan Uwch-gapten yr Afr. Roedd yr afr ei hun yn gorporal. Allwn i ddim dweud na wrth fy rhieni y tro hwn, felly mi ddaethon nhw. Cyn dechrau gwrando'r achos, cafodd y Caniatâd Brenhinol ei ddarllen yn y llys. Yna roedd gwahoddiad gan yr Uchel Siryf i'r barnwr, y cyfreithwyr a'r swyddogion fynd am ginio bys a bawd i westy'r Royal Oak. Ac er mawr syndod i mi, ynghanol y gwesteion yn y Royal Oak, ar wahân i'r afr, pwy welais i ond fy rhieni, oedd rywsut neu'i gilydd wedi llwyddo i ddod i mewn.
5. Mae'r drefn gyfreithiol wedi newid llawer iawn ers dyddiau Milwyn Jenkins. Ar ddechrau'r Mileniwm hwn, bymtheng mlynedd yn ôl, roedd pethau'n edrych yn dda iawn yng Nghymru. Roedd llysoedd newydd yn cael eu sefydlu yma i ymdrin ag achosion a oedd yn arfer cael eu clywed yn Llundain, er enghraifft y Llys Masnach i ymdrin ag anghydfodau masnachol, a Llys Gweinyddol Cymru i ymdrin ag anghydfodau cyfraith gyhoeddus. Datganolwyd swyddogaethau i gorff newydd, sef Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd cyfarwyddiadur cyntaf y bargyfreithwyr ar Gylchdaith Cymru a Chaer, a gyhoeddwyd y flwyddyn honno, yn cynnwys rhagair gan Uwch

Farnwr Gweinyddol y Gylchdaith ar y pryd, Meistr Ustus John Thomas. Erbyn hyn mae'n Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr. Dyma beth oedd yn y rhagair:

"Â'r llysoedd newydd, a'r posibilrwydd y bydd y gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru'n wahanol i'r un sy'n berthnasol yn Lloegr ar gyfer swyddogaethau a ddatganolwyd, a'r angen i ystyried testunau Cymreig holl is-ddeddfwriaethau'r Cynulliad, mae gwir angen, ac mae cyfleoedd amlwg, ar gyfer twf y Bar yng Nghymru a Chaer. Bydd y cyfarwyddiadur hwn yn dangos i bawb y sgiliau a'r arbenigedd eang sydd ar gael, nid yn unig i bobl yng Nghymru a Chaer, ond hefyd i bobl yn Llundain, ac mewn ardaloedd eraill yn ein system gyfreithiol unedol."

6. Mae rhai o'r cyfleoedd hyn wedi cael eu gwireddu. Mae mwy a mwy o achosion sydd â chysylltiad â Chymru'n cael eu clywed yng Nghymru, ac mae mwy a mwy o'r gwaith yma'n cael ei wneud gan gyfreithwyr lleol. Rydw i wedi gweld hyn dros fy hun, ac mae gwaith ymchwil academaidd, y byddaf yn cyfeirio ato yn nes ymlaen, hefyd yn awgrymu bod hyn yn wir. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen yn ddiweddar ar Wasanaethau Ariannol a Phroffesiynol. Yn y ddogfen hon mae'n dweud mai cryfder gwasanaethau cyfreithiol Cymru yw'r gronfa lafur, sy'n cynnwys 3,700 o gyfreithwyr, 15,000 o baragyfreithwyr, a phum ysgol y gyfraith, sy'n cynhyrchu bron i ddwy fil o raddedigion y flwyddyn. Mae'n nodi bod gan rai o gwmnïau gorau'r byd swyddfeydd yng Nghaerdydd, a bod gwasanaethau cyfreithiol cost-effeithiol o'r radd flaenaf i'w cael yma yng Nghymru.
7. Mae'r broses ddatganoli'n mynd yn ei blaen, ac mae pethau'n newid yn gyflym iawn. Mae'r posibilrwydd y bydd y gyfraith yng Nghymru'n wahanol i'r gyfraith yn Lloegr wedi dod yn realiti. Dyma i chi rai enghreifftiau. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn cyflwyno system gofrestru newydd ar gyfer landlordiaid eiddo preifat yng Nghymru. Mae'r Bil Rhentu Cartrefi yn darparu system lawer symlach ar gyfer rhentu tai preifat. Mae hyn yn deillio o argymhelliad gan Gomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr – argymhelliad gafodd ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, ond nid gan Lywodraeth y

Deyrnas Unedig. Eleni, 800 mlynedd ers arwyddo'r Magna Carta, rydan ni'n mynd yn ôl i ryw raddau at yr hyn oedd yn y ddogfen fawr honno, sef y byddai cyfraith Lloegr yn berthnasol i ddaliadau tir yn Lloegr a chyfraith Cymru'n berthnasol i ddaliadau tir yng Nghymru.

8. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 newydd gael Cydsyniad Brenhinol, ac mae'n darparu proses syml a fydd yn helpu i sicrhau cartrefi, swyddi a seilwaith yng Nghymru. Erbyn hyn mae Llys Cynllunio yng Nghymru, fel rhan o'r Llys Gweinyddol yng Nghymru.
9. Yn Araith y Frenhines yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei bwriad i gyflwyno Bil Cymru, sy'n debygol o roi mwy fyth o bwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy newid o fodel pwerau a roddwyd i fodel pwerau a gadwyd yn ôl.
10. Ac eto, mae arwyddion bod rhai o'r cyfleoedd gafodd eu rhagweld yn y flwyddyn dwy fil yn dal heb gael eu gwireddu. Y flwyddyn honno, roedd tua 300 o fargyfreithwyr ar y Gylchdaith, gan gynnwys tua 30 o Gwnsleriaid y Frenhines. Mae'r niferoedd hyn wedi gostwng yn sylweddol erbyn hyn, i 264 o fargyfreithwyr, a phymtheg o Gwnsleriaid y Frenhines. Gwelwyd gostyngiad hefyd yn nifer y cwmnïau cyfreithiol yng Nghymru, yn enwedig cwmnïau ymarferydd unigol. Tan yn ddiweddar, prif feysydd gwaith cwmnïau o'r fath oedd: trawsgludo eiddo preswyl, cyfraith teulu a chyfraith droseddol. Erbyn hyn, eu prif feysydd gwaith yw: busnes, profiant ac ymglyfreitha cyffredinol.
11. Mewn adroddiad i Gymdeithas y Cyfreithwyr yn y flwyddyn 2006 cyfeiriodd yr Athro Iwan Davies a'r Athro Mainwaring at ganfyddiadau astudiaeth a oedd yn cymharu dros hanner cant o fathau o sgiliau arbenigol mewn cwmnïau cyfreithiol preifat yng Nghymru ac yn Llundain a Rhanbarthau Lloegr. Un o'r pethau y gwnaethon nhw edrych arno oedd nifer yr arbenigwyr ar gyfer pob cwmni masnachol. Mae Cymru ar ei hôl hi ym maes cyfraith busnes o'i gymharu â phob un o'r rhanbarthau hyn.
12. Yn yr un modd, mae pryder yng Nghymru ac yn Lloegr ynglŷn â mynediad at gyfiawnder mewn gwaith sy'n cael ei ariannu gan y pwrs cyhoeddus. Yma yng Nghymru, mae pryder penodol ynglŷn â materion fel cysylltiadau trafniadaeth gwael, amddifadedd mewn cymunedau ôl-ddiwydiannol, a

chymunedau eraill, y pellter rhwng gwahanol gymunedau mewn ardaloedd gwledig, a'r iaith Gymraeg.

13. O ganlyniad i'r toriadau i Gymorth Cyfreithiol, a gyflwynwyd yn y flwyddyn 2012 rydan ni wedi gweld lleihad yn nifer y darparwyr cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion teulu, ac yn nifer yr achosion teulu newydd sy'n cael cymorth cyfreithiol. Mae hyn wedi golygu bod mwy o ymgyfreithwyr yn methu â fforddio talu am gyfreithwyr, yn cynrychioli eu hunain yn y llys, a hynny weithiau mewn achosion cymhleth. Mewn achos teulu yn y Llys Apêl dri mis yn ôl, Parthed K a H, dywedodd Meistr y Rholiau y gallai diffyg cynrychiolaeth gyfreithiol, mewn rhai achosion sifil, olygu diffyg gwrandawriad teg, ac y dylid ystyried darpariaeth statudol a fyddai'n penodi cyfreithiwr ac yn talu am gyfreithiwr i groesholi, fel sy'n digwydd mewn achosion troseddol.
14. Mae pryder hefyd ynglŷn â mynediad at gyfiawnder troseddol yng Nghymru. Mae cyfraith droseddol yn mynd yn fwy a mwy cymhleth. Cafodd ffioedd cymorth cyfreithiol eu cwtdgi 17.5% yn ddiweddar, ac mae'n bosib y bydd mwy o gwtogi'n digwydd. Mae darparu gwasanaethau heddlu a llysoedd troseddol yn gwbl ddwyieithog, fel sy'n digwydd mewn rhai ardaloedd gwledig yng Nghymru, fel Ceredigion a Gwynedd, yn mynd yn anoddach o hyd, ac mae'n anodd gweld sut y gallan nhw fod yn hyfyw. Weithiau mae cais i gael cyfreithiwr ar ddyletswydd at gleient yng ngorsaf yr heddlu yn golygu taith bell iawn, er enghraifft o Aberystwyth i Gaernarfon. Mae rhai cyfreithwyr troseddol mewn ardaloedd o'r fath, yn gwbl ddealladwy, yn ystyried ail-hyfforddi mewn meysydd eraill o fewn y gyfraith neu symud at gwmni mawr yn rhywle arall. Pwy fydd yn darparu'r gwasanaethau hyn mewn ardaloedd o'r fath wedyn?
15. Dim ond mewn ychydig o achosion sifil y mae cymorth cyfreithiol ar gael erbyn hyn. Mae cyfreithwyr sy'n barod i wneud cytundebau ffioedd amodol yn darparu mynediad at gyfiawnder i ymgyfreithwyr na fyddai'n gallu eu fforddio fel arall. Ond dydy hyn ddim yn ateb y broblem ym mhob achos, ac mae nifer yr ymgyfreithwyr sy'n cynrychioli eu hunain mewn achosion sifil yn cynyddu. Mae ymchwil i Gyfiawnder y tu allan i Lundain, a gwblhawyd gan Sarah Nason ym Mhrifysgol Bangor yn ddiweddar, yn awgrymu bod yr hawlydd, mewn mwy na hanner yr achosion sy'n cael eu galw'n hawliadau

adolygiadau barnwrol sifil cyffredin, wedi bod heb gynrychiolydd drwy gydol yr achos. Rydw i wedi gweld y cynnydd hwn mewn ymgyfreitha heb gynrychiolydd fy hun. Mae'n digwydd bron bob wythnos, a hynny weithiau mewn achosion cymhleth fel y rhai sy'n ymwneud ag eiddo, ewyllysiau, neu fusnesau.

16. Pam bod hyn yn digwydd? Mae'n digwydd yn rhannol o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer yr hawliadau annheilwng, pan fydd cyfreithwyr, yn gwbl briodol, yn gwrthod derbyn cyfarwyddyd. Ond dim ond rhan fach o'r broblem ydy hyn. Mae ymchwil Sarah Nason yn awgrymu y gallai hefyd fod yn digwydd i ryw raddau o ganlyniad i'r diwygiadau i gymorth cyfreithiol. Mae hi hefyd wedi darganfod bod nifer yr hawliadau adolygiadau barnwrol yn ôl poblogaeth yn dal yn is y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr, yn enwedig yng Nghymru a Chanolbarth Lloegr, ac mae'n awgrymu y gallai hyn fod, yn rhannol, oherwydd diffyg mynediad at gyfreithwyr arbenigol ac oherwydd pellter o'r llysoedd.
17. Rheswm arall mae'n debyg yw hyd a chost achosion sifil yng Nghymru a Lloegr, sy'n tueddu i fod yn llawer uwch nag mewn nifer o wledydd eraill fel Unol Daleithiau America, Awstralia a'r Almaen. Mewn ymdrech i leihau costau, y llynedd am y tro cyntaf cyflwynwyd rheolaeth gyllidebol ar ymladd achosion sifil gan y llysoedd. Mae hyn yn galluogi ymgyfreithwyr i weld o'r dechrau faint fydd ymladd achos yn ei gostio. Tua'r un adeg gwelwyd cynnydd sylweddol mewn ffioedd llysoedd. Yn dilyn hyn gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer yr hawliadau sifil a oedd yn cael eu gwneud yng Nghymru ac mewn ardaloedd eraill. Mae hyn yn sicr yn rhannol o ganlyniad i'r cynnydd mewn ffioedd, ond yn ôl yr ymarferwyr mae cleientiaid, ar ôl iddyn nhw weld y gyllideb ar gyfer cost ymladd achos, yn cael eu hannog i geisio datrys anghydfod mewn ffordd arall, er enghraifft drwy gyfryngu neu gyfarfodydd setlo ar y cyd.
18. Mae dulliau o'r fath yn aml iawn yn cynnig llawer o fanteision, o'u cymharu ag achosion llys, ac maen nhw'n tueddu i fod yn rhatach, yn gyflymach ac yn llai o straen. Gall partion gytuno ar atebion na all llysoedd eu gorfodi. Mae gan gyfreithwyr ran i'w chwarae wrth gwrs. Ond dydy'r ymdrechion hyn ddim yn llwyddiannus bob amser, a dydyn nhw ddim yn debygol o fod yn llwyddiannus bob amser, ac ar yr adegau hynny maen nhw'n golygu mwy o

gost, mwy o amser a mwy o straen. Bydd angen llysoedd sifil o hyd. Mae'r mesurau rheoli cyllidebol, a chyfreithwyr sy'n canolbwyntio ar faterion penodol, yn helpu i wneud costau ymladd achosion sifil yn fwy cymesur. Yn rhy aml o'r hanner fodd bynnag, mae ymgyfreithwyr yn cynyddu costau'n ddiangen drwy beidio â chydymffurfio â gorchmynion llys, gwneud ceisiadau diangen a chodi materion nad ydyn nhw yn y pen draw yn helpu i ddatrys yr anghydfod, ac mae adnoddau'n cael eu defnyddio ar gyfer achosion o'r fath heb fod angen. Mae'n bosib bod rhywfaint o hyn yn anorfod mewn system wrthwynebus, ond nid i'r graddau rydan ni'n eu gweld o hyd mewn rhai achosion. Ddylai'r pwyslais ar gyllidebu cymesur ddim cael ei weld fel ymosodiad arall ar gyfreithwyr. Mae'n debygol o annog partion y mae angen iddyn nhw ymladd achos i gael cymorth neu gynrychiolaeth gyfreithiol i wneud hynny. Mae'n bosib cymhwysio adnoddau'n fwy cymesur i fwy o achosion.

19. Er mwyn darparu gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru mae angen gwasanaeth dwyieithog. Mewn cynadleddau rheoli achos, rwy'n dal i gael ceisiadau am ganiatâd i barti neu dyst roi ei dystiolaeth yn Gymraeg. Nid braint yw hyn, ond rhywbeth y mae gennym ni hawl i'w wneud. Mae datganiadau tystion yn aml iawn yn cael eu gwneud yn Saesneg, er mai Cymraeg yw iaith gyntaf y rhai sy'n eu gwneud ac, er enghraifft, pan mae'r datganiadau'n cyfeirio at sgysiau pwysig, a'r rheini'n sgysiau Cymraeg. Mae Uned yr Iaith Gymraeg yn darparu gwasanaeth cyfieithu rhagorol ar gyfer datganiadau o'r fath a dogfennau eraill mewn achosion llys, a dylai partion a thystion gael eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.
20. Gwnaeth Comisiwn Silk nifer o argymhellion yn ymwneud â phlisma a chyfiawnder yng Nghymru. Ym Mhapur Gorchymyn Gŵyl Ddewi, nid oedd consensws ynglŷn â datganoli plisma, cyfiawnder troseddol, cymorth cyfreithiol y gwasanaeth llysoedd na'r farnwriaeth. Doedd yna ddim consensws ychwaith ynglŷn ag adroddiadau cyfnodol i Senedd y Deyrnas Unedig a'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â sut y mae mynediad at gyfiawnder yn gwella yng Nghymru, ond roedd yna gonsensws y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ymgynghori'n llawn â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod cymorth cyfreithiol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n

adlewyrchu amgylchiadau yng Nghymru. Roedd yna gonsensws hefyd y dylai'r Uchel Lys a'r Llys Apêl eistedd yng Nghymru'n rheolaidd er mwyn gwrandio achosion sy'n codi yng Nghymru, ac y dylid cael gwell mynediad at ddeddfwriaeth o bob math mewn meysydd lle mae pwerau wedi cael eu datganoli.

21. Mae llawer iawn yn credu bod hyn yn hanfodol. Un o egwyddorion sylfaenol y gyfraith yw y dylai fod yn glir ac yn hygyrch, i ddinasyddion, i'w cynghorwyr, a hyd yn oed i farnwyr. Mae cymal 45 o'r Magna Carta, sy'n dal mewn grym heddiw, yn nodi na chaiff neb ei benodi'n ustus, cwnstabl, siryf na swyddog arall oni bai ei fod yn gyfarwydd â chyfraith y deyrnas ac yn bwriadu byw yn unol â'r gyfraith honno. [*"We will appoint as our justices, constables, sheriffs, or other officials only men that know the law of the realm and are minded to keep it well."*] Y mis diwethaf, â'r ddarpariaeth hon mewn golwg mae'n debyg, lansiodd Llywodraeth Cymru wefan Cyfraith Cymru. Wrth i fwy o bwerau gael eu datganoli, bydd yr angen i wella mynediad yn cynyddu.
22. Tua'r un adeg, lansiodd Comisiwn y Gyfraith ddogfen ymgynghori yn ymwneud â ffurf a hygyrchedd y gyfraith sy'n berthnasol i Gymru. Mae'n ddogfen hynod oherwydd ehangder a dyfnder ei hymchwil, a'r dull arloesol sydd wedi cael ei ddefnyddio. Mae hwn yn ymgynghoriad pwysig iawn i bobl Cymru, ac i bobl mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig mewn gwirionedd. Mae'n debygol o ddylanwadu ar y ffordd y bydd y genhedlaeth nesaf o gyfreithiau Cymreig yn cael eu llunio a'u cyhoeddi, a bydd yn cael effaith fawr iawn ar wasanaethau cyfreithiol yng Nghymru ac ar fynediad at gyfiawnder.
23. Mae cynigion radical yn cael eu hystyried, er enghraifft cyfundrefnau yng Nghymru a fydd yn rhoi ffurf statudol i gyfraith gwlad, a/neu ad-drefnu cyfraith statud. Mae'n edrych ar ddulliau deddfu yn Seland Newydd, lle mae Pwyllgor Cynghori ar Ddeddfwriaeth yn cyhoeddi canllawiau er mwyn sicrhau'r arferion gorau wrth ddrafftio deddfwriaeth, a sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parchu egwyddorion sylfaenol fel cyfiawnder naturiol a mynediad i'r llysoedd. Mae'n cynnwys 74 o gwestiynau ymgynghori sy'n ymwneud â'r materion hyn, yn ogystal â materion fel cyhoeddi'r gyfraith, a'r iaith Gymraeg. Dylid annog darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau



cyfreithiol i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, sy'n agored am ddau fis arall, ac i gyfrannu tuag at y broses hollbwysig hon.

24. Mae yna gonsensws hefyd y dylai Gweinidogion Cymru barhau i gael cymhwysedd dros y tribiwnlysoedd mewn meysydd polisi sydd wedi cael eu datganoli, ac y dylai'r berthynas rhwng y tribiwnlysoedd sydd wedi cael eu datganoli a'r rhai sydd heb gael eu datganoli fod yn glir. Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn ceisio rhoi'r argymhelliad hwn ar waith.
25. Mae'r datblygiadau hyn, yn fy marn i, yn debygol o gynyddu'r galw am wasanaethau cyfreithiol yng Nghymru. Mae hyn yn wir hefyd am Dribiwnlys yr Iaith Gymraeg, tribiwnlys a sefydlwyd yn ddiweddar, ac a fydd yn gwrando ar heriau yn ymwneud â'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg sydd wedi cael eu pennu gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'n debyg y bydd ar nifer o bartion mewn heriau o'r fath angen cyngor a/neu gynrychiolaeth gyfreithiol.
26. Mae hyn i gyd yn dod ar adeg pan mae hi eisoes yn amhosib ateb y galw am rai gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru, a phan mae nifer y cyfreithwyr yng Nghymru'n gostwng. Yn ychwanegol at hyn, yn fy marn i, mae'n rhaid i ni fod yn realistig, a derbyn bod nifer y practisau bach yn debygol o leihau eto, ac mae'r cynnydd mewn costau cyffredinol, fel gofynion cydymffurfio ac yswiriant, yn rhoi mwy o bwysau ar bractisau o'r fath.
27. Mae rhai'n credu'n gryf mai'r unig ffordd o fynd i'r afael â'r problemau hyn, a phroblemau eraill, yw drwy gael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yng Nghymru. Nid dyma'r lle i fynegi barn ynglŷn â'r mater gwleidyddol hwn, ond os ydy'r datblygiad hwn yn mynd i ddigwydd, fydd hynny ddim am rai blynyddoedd. Beth bynnag fydd yn digwydd, mae gan ddinasyddion Cymru hawl i ddisgwyl mynediad effeithiol at gyfiawnder ac at wasanaethau cyfreithiol.
28. Wrth ystyried sut mae gwella hyn, mae'n amhosib anwybyddu'r newidiadau aruthrol rydan ni'n debygol o'u gweld yn y pum mlynedd nesaf o ganlyniad i ddatblygiadau mewn technoleg gwybodaeth. Mae rhai'n rhagweld y bydd cyfrifiaduron desg cyffredin, erbyn y flwyddyn 2020, yn meddu ar yr un faint o bŵer prosesu â'r ymennydd dynol.
29. Wedi dweud hyn, rwy'n ymwybodol iawn bod y system llysoedd a thribiwnlysoedd yn dal i ddefnyddio ffeiliau cardbord, bandiau lastig a system feddalwedd sy'n ddeuddeg oed. Mae rhai diwygiadau wedi cael eu cyflwyno'n

barod. Fis Hydref nesaf bydd Llys y Goron yng Nghaerdydd yn dechrau defnyddio system ddigidol yn lle'r system bapur sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Ym mis Mawrth y llynedd cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd raglen bum mlynedd o ddiwygiadau technoleg gwybodaeth sy'n cael ei gweld fel cyfle unwaith mewn oes i ddarparu gwell cyfiawnder i ddefnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd. Mae'r achos busnes wedi cael ei gyflwyno, a'r mis diwethaf siaradodd yr Arglwydd Ganghellor newydd am ei ymrwymiad personol i'r diwygiadau. Mae'n cydnabod y bydd ambell un yn methu, neu ddim yn awyddus, i gofnodi gwybodaeth, cyflwyno dogfennau, na hyd yn oed i gymryd rhan mewn gwrandawiadau ar-lein, ac y bydd yn rhaid darparu cymorth priodol i'r rhai sydd ei angen.

30. Fel rhan o'r diwygiadau hyn, mae proses ymgynghori ynglŷn â dyfodol ystadau llysoedd a thribiwnlysoedd yn cael ei chynnal ar hyn o bryd. Yn y ddogfen ymgynghori cynigir y dylid cau un ar ddeg o lysoedd yng Nghymru. Mae hyn yn ychwanegol at y rhai sydd wedi cau'n barod, ond mae'n cael ei gynnig fel cam cyntaf er mwyn darparu mynediad gwell a mwy cost-effeithiol at gyfiawnder. Mae'r ymatebwyr yn cael eu hannog i gynnig lleoliadau penodol eraill, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, er mwyn gwella mynediad at gyfiawnder. Yn fy marn i, bydd angen bod yn ofalus iawn wrth wneud y cynigion terfynol, er mwyn sicrhau gwell mynediad at gyfiawnder mewn cymunedau gwledig, ac mewn cymunedau difreintiedig. Hyd yn oed os oes gwasanaethau cludiant cyhoeddus da mewn ardaloedd o'r fath, sy'n beth anghyffredin iawn mewn sawl ardal yng Nghymru, mae'r gwasanaethau hyn yn gallu bod yn gostus iawn i'r bobl fwyaf difreintiedig mewn cymdeithas. Ambell waith bydd angen mwy nag un ymweliad â'r ganolfan lle mae achos yn cael ei glywed

31. Mae cyflymder yr holl ddatblygiadau yn debygol o gael effaith hefyd ar y ffordd y mae pobl yn defnyddio gwasanaethau cyfreithiol. Mae'r Athro Richard Susskind yn rhoi cyngor ynglŷn â thechnoleg gwybodaeth i'r Arglwydd Brif Ustus ac eraill. Yn ei lyfr diweddaraf, *Tomorrow's Lawyers*, mae'n rhagweld y bydd technolegau o'r fath, yn y blynyddoedd nesaf, yn dylanwadu ar waith cyfraith hawliau, a hefyd ar y ffordd y mae pobl yn dewis gwasanaethau cyfreithiol, er enghraifft drwy systemau cymharu prisiau. O ran

cyfraith hawliau, mae'n rhoi enghreifftiau o bethau y mae'n rhagweld y byddan nhw ar gael ar-lein i gyfreithwyr a hefyd i ddinasyddion, sef; canllawiau cyfreithiol, dogfennau cyfreithiol safonol, systemau diagnostig a hysbysiadau awtomatig ynglŷn â newidiadau yn y gyfraith. Dydy pawb ddim yn cytuno pa mor fuan y gallai'r datblygiadau hyn ddigwydd, neu a fyddan nhw'n digwydd o gwbl, ond does yna fawr o amheuaeth yn fy marn i y bydd y datblygiadau ym maes technoleg yn y pum mlynedd nesaf yn dod â newidiadau mawr iawn i'r ffordd y mae gwasanaethau cyfreithiol, yn ogystal â llysoedd a thriwlysoedd, yn cael eu defnyddio.

32. Gallai'r datblygiadau hyn gynnig atebion i rai o'r pryderon rydw i wedi cyfeirio atyn nhw, ond dydyn nhw ddim yn debygol o ddatrys pob problem. Mewn rhai achosion rydan ni eisoes yn gweld defnyddwyr llysoedd neu driwlysoedd yn cyfarfod eu cyfreithiwr am y tro cyntaf ar ddiwrnod yr achos, ar ôl bod mewn cysylltiad electronig â nhw cyn hynny. Un o'r meysydd sy'n cael ei gynnig fel maes i'w adolygu yw dulliau ar-lein o ddatrys anghydfodau mewn achosion sy'n werth llai na £25,000. Gallai hyn fod yn briodol ar gyfer rhai anghydfodau, ond ni fydd yn briodol i bob anghydfod, er enghraifft achosion cymhleth neu achosion sy'n ymwneud â defnyddwyr agored i niwed.
33. Fel rydw i wedi dweud yn barod, mae ambell unigolyn wedi gweithio'n galed dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn llenwi rhai o'r bylchau gafodd eu nodi yng Nghymru. Ond yn fy marn i, cymaint ydy'r angen erbyn hyn fel nad ydy hi'n deg mwyach i ni ddisgwyl i unigolion yn unig llenwi'r holl fylchau hyn. Cafodd hyn ei gydnabod gan yr Athro Davies yn ei adroddiad yn y flwyddyn 2006. Cynigiodd gyfleuster pwrpasol a fyddai'n gallu datblygu sgiliau ôl-radd, a sgiliau proffesiynol, a darparu timau ymchwil, a hynny'n benodol er budd darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau cyfreithiol, er mwyn cefnogi'r economi wybodaeth a bod yn sail i ddatblygiadau yn y gyfraith yng Nghymru. Gwelodd fod datblygu gwybodaeth gyfreithiol sy'n berthnasol i'r economi wybodaeth ym mynd i fod o fudd i'r cyhoedd.
34. Mae unigolion, canolfannau cynghori a sefydliadau elusennol hefyd yn darparu gwasanaethau cyfreithiol di-dâl pwysig iawn ar hyd a lled Cymru. Mae LawWorks Cymru yn brosiect sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd, ac mae'n cydgysylltu'r gwaith o ddarparu cyngor cyfreithiol di-dâl i fudiadau

gwirfoddol ac unigolion yng Nghymru. Mae'n cael ei gefnogi gan Gymdeithas y Cyfreithwyr. Dri mis yn ôl, lanswyd Canolfan Gyngori Pro Bono Cyfraith Cyflogaeth Caerdydd, sy'n golygu erbyn hyn bod dau gant o ganolfannau sy'n rhoi cyngor cyfreithiol di-dâl yn rhan o'r rhwydwaith yng Nghymru a Lloegr. Er mor bwysig yw'r gwasanaethau hyn, ni ellir disgwyl, ac ni ddylid disgwyl iddyn nhw ddarparu ateb i bryderon sy'n ymwneud â mynediad at gyfiawnder.

35. Rydan ni eisoes yn gweld awdurdodau lleol, sefydliadau ariannol a rhai cwmnïau cyfreithiol preifat sy'n wynebu'r heriau hyn, er eu bod yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn arbed arian ac adnoddau mewn materion fel cydymffurfio a hyfforddiant.
36. Yn fy marn i, oherwydd gofynion penodol pobl Cymru, a'r tebygolrwydd y bydd y gofynion hyn yn cynyddu yn y dyfodol agos, mae'r sgôp a'r angen am ddull gweithredu newydd o'r fath hyd yn oed yn fwy amlwg yng Nghymru. Does dim byd newydd yn yr awgrym hwn. Pan ddechreuais i weithio yng Nghaerdydd, amser maith yn ôl, roedd yna gynnig y dylid sefydlu Ysbyty Brawdlys Cymreig yng Nghaerdydd. Ddaeth dim byd o hyn, yn rhannol oherwydd teyrngarwch i Ysbytai'r Frawdlys yn Llundain ac i Siambrau unigol yng Nghymru. Does gan yr un o Ysbytai'r Frawdlys bresenoldeb parhaol yng Nghymru hyd heddiw. Er hyn, mae pob un o'r Ysbytai'n darparu hyfforddiant a digwyddiadau eraill yng Nghymru. Mae gan Gymdeithas y Cyfreithwyr swyddfa yng Nghaerdydd ar gyfer Cymru, ac mae'r ddarlith flynyddol hon yn un enghraifft o'r gwaith pwysig sy'n cael ei wneud gan y gymdeithas. Erbyn hyn, wrth gwrs, mae'n bosib hyfforddi fel cyfreithiwr neu fargyfreithiwr mewn nifer o ysgolion y gyfraith ledled Cymru, rhywbeth nad oedd yn bosib pan oeddwn i'n cael fy hyfforddiant i. Bryd hynny byddai pobl o Gymru oedd eisiau hyfforddi i fod yn fargyfreithiwr yn gorfod mynd i Lundain.
37. Ond mae yna enghreifftiau sy'n dangos sut y gallai dull gweithredu o'r fath helpu. Pan ddechreuais i weithio yn 1980, doedd yna ddim llys siawnsri yng Nghymru. Roedd yn rhaid i bartion oedd ag anghydfod yn Adran Siawnsri yr Uchel Lys fynd i lys yn un o ddinasoedd mawr Lloegr i gael gwrandawriad. Newidiodd hynny ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach pan sefydlwyd y Llys Siawnsri yng Nghaerdydd. Dyma'r llys lle rydw i'n farnwr erbyn hyn. Y barnwr cyntaf oedd Ei Anrhydedd Hywel Moseley CF. Fo oedd yn dysgu cyfraith fasnach i mi pan oeddwn i'n fyfyrwr yn Aberystwyth. Gan fod hwn

yn llys newydd yng Nghymru, doedd yna ddim llawer o fargyfreithwyr yng Nghymru a oedd yn gwneud gwaith siawnsri. Roedd ymgyfreithwyr yn mynd i ddinasoedd yn Lloegr i gael gwasanaethau o'r fath. Yn y dyddiau cynnar, roedd y rhestr yn cael ei rhannu â'r llys siawnsri a oedd wedi cael ei sefydlu ym Mryste. Sefydlodd bargyfreithwyr yn y ddwy ddinas Gymdeithas Bar y Siawnsri. Roedd rhai yng Nghymru'n poeni na fyddai hyn yn cyflawni dim, ar wahân i godi proffil y rhai hynny a allai ddarparu gwasanaethau o'r fath yng Nghymru o Fryste ac o Lundain. Fe gododd broffil y rhain, ond yn fy marn i, fe roddodd broffil uwch hefyd i'r rhai hynny a allai ddarparu'r gwasanaethau hynny o Gymru, yng Nghymru ac mewn lleoedd eraill. Mae wedi helpu i gynnig dewis ystyrlon i'r rhai hynny yng Nghymru sydd eisiau defnyddio gwasanaeth o'r fath.

38. Mae yna enghreifftiau eraill sy'n dangos sut mae darparwyr gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru wedi ymateb i ddatblygiadau penodol yng Nghymru, fel sefydlu Cymdeithas Cyfraith Fasnachol Cymru ar ôl i'r Llys Masnach gael ei sefydlu yma, a sefydlu Cyfraith Gyhoeddus Cymru mewn ymateb i ddatganoli. Sefydlwyd Cymru'r Gyfraith, Bwrdd Sefydliad Cymru'r Gyfraith erbyn hyn, gan Gwnsler Cyffredinol cyntaf Cymru, Winston Roddick CF. Mae'n dod â'r holl randdeiliaid at ei gilydd yng Nghymru'r Gyfraith - cyfreithwyr, bargyfreithwyr, gweithredwyr cyfreithiol, cyfreithwyr llywodraeth leol a chenedlaethol, academyddion a barnwyr. Hyd y gwn i, dyma'r unig sefydliad o'i fath yn y Deyrnas Unedig. Mae ei gynhadledd flynyddol wedi dod yn ddigwyddiad pwysig ym maes y gyfraith yng Nghymru.
39. Dyna i chi rai enghreifftiau sy'n dangos gallu a pharodrwydd darparwyr o'r fath i ddiwallu anghenion penodol yng Nghymru. Maen nhw hefyd yn dangos bod cyfleoedd penodol yng Nghymru, yn rhannol oherwydd ei maint, ar gyfer cydweithio o'r fath.
40. Yn fy marn i, yn y pum mlynedd nesaf, mae'r cynnydd yn nifer y cyfreithiau Cymreig, y ddyletswydd gyfreithiol gynyddol i ddefnyddio'r iaith Gymraeg, a chyflymder aruthrol datblygiadau mewn technoleg gwybodaeth, gyda'i gilydd yn debygol o olygu y bydd angen llawer mwy o gydweithio. Yn y gorffennol, yn gwbl ddealladwy, roedd hyn yn tueddu i ddigwydd mewn ymateb i ddatblygiadau penodol. Fodd bynnag, fel y dywedais yn gynharach, mae

bylchau o hyd mewn gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru. Mae rhai o'r rhain o ganlyniad i ffactorau nad ydyn nhw'n ymwneud yn benodol â Chymru, ond mae rhai ohonyn nhw oherwydd ffactorau sydd yn benodol i Gymru.

41. Fel yr awgrymodd yr Athro Davies, mae cau'r bylchau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y ddarpariaeth gwasanaethau cyfreithiol yn mynd i fod o fudd i bobl Cymru. Ond yn fy marn i, mae'r amser wedi dod i gydnabod mai'r hyn sy'n hanfodol er mwyn sicrhau mynediad go iawn at gyfiawnder yng Nghymru yn y dyfodol, yw dull o ddarparu gwasanaethau cyfreithiol sy'n rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol, dull sy'n gydlynol yn hytrach na thameidiog. Nid yw'n deg nac yn realistig disgwyl i unigolion yn unig gyflawni hyn, a bydd gan bob rhanddeiliad, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ran gynyddol bwysig i'w chwarae.
42. Mae llawer o'r pryderon rydw i wedi cyfeirio atyn nhw heddiw yn rhai cyffredin, sy'n cael eu rhannu gan lawer o bobl eraill, gan gynnwys rhai ohonoch chi, sy'n garedig iawn wedi dod yma heddiw. Fy safbwyntiau i ydy'r rhain wrth gwrs, ac mae'n ddigon posib eu bod yn wahanol i safbwyntiau fy nghydweithwyr. Er hyn, rwy'n credu bod gan unrhyw un sy'n rhannu'r un pryderon â mi le i deimlo'n eithaf gobeithiol a hyd yn oed yn gyffrous.
43. Diolch yn fawr i chi am wrando ac am fod yn amyneddgar.